



Department
for Business
Innovation & Skills

Y DDEDDFWRIAETH AR FASNACHU
YN Y STRYD A PHEDLERIAETH:
CYDYMFFURFIO Â CHYFARWYDDEB
GWASANETHAU'R UE

Ymateb y Llywodraeth i'r
ymgyngoriad ar ddiddymu'r
Deddfau Pedleriaid a newid y
ddeddfwriaeth ar fasnachu yn y
stryd yng Nghymru a Lloegr

HYDREF 2014

Cynnwys

Cynnig i ddiddymu'r Deddfau Pedleriaid	5
Ymateb y Llywodraeth	5
Cynigion i ddiwygio Atodlen 4 o'r LGMPA	6
Paragraff 1 – Esemptiad i bedleriaid	6
Masnachwyr sefydledig a masnachwyr dros dro	6
Paragraff 2 – Pŵer i ddynodi strydoedd yn strydoedd trwydded neu'n strydoedd cydsyniad	7
Paragraff 3 – Ceisiadau am drwyddedau i fasnachu yn y stryd	7
Paragraff 4 – Hyd trwyddedau i fasnachu yn y stryd	11
Paragraff 5 – Dirymu trwyddedau i fasnachu yn y stryd	11
Paragraff 6 – Datgymhwyso Rheoliad 19(5) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau o dan rai amgylchiadau.....	12
Paragraff 7 – Cydsyniadau ar gyfer masnachu yn y stryd	13
Paragraff 10 – Troseddau	13
Sgrinio deddfwriaeth awdurdodau lleol a diwygiadau canlyniadol	13
Casgliadau a'r camau nesaf.....	14
Dadansoddiad o'r ymatebion	16
Pedleriaid.....	16
Awdurdodau lleol	17
Yr heddlu	17
Meicro-fusnesau	18
Cymdeithasau masnachwyr marchnad	18
Ymatebion eraill	19
Unigolion.....	19
Ymateb y Llywodraeth	20

Y cynnig i ddiwygio Atodlen 4 i'r LGMPA	20
Yr esemptiad i bedleriaid.....	20
Ymateb y Llywodraeth	21

Dadansoddiad ac ymateb y Llywodraeth

Y penderfyniadau allweddol

- Bydd y Deddfau Pedleriaid yn cael eu cadw a chaiff y broses ardystio ei diwygio i beri iddi gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau
- Bydd diffiniad pedleriaeth yn aros yn ddigyfnewid
- Bydd y gwelliannau arfaethedig i Atodlen 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) (LGMPA) i beri i'w darpariaethau gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau yn mynd yn eu blaen.

1. Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad ar y cyd ar 23 Tachwedd 2012¹ yn gofyn am sylwadau ar reoliadau drafft i wneud y canlynol:
 - diddymu Deddfau Pedleriaid 1871 a 1881 (sy'n gymwys i'r cyfan o'r Deyrnas Unedig) am nad yw'r broses ardystio a nodir yn y Deddfau'n cydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb Gwasanaethau'r Undeb Ewropeaidd 2006/123/EC (y Gyfarwyddeb Gwasanaethau); a
 - diwygio Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (LGMPA) yng Nghymru a Lloegr a Deddf Masnachu yn y Stryd (Gogledd Iwerddon) 2001 i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau.
2. Cododd yr angen i wneud y newidiadau hyn yn sgil consensws Aelod-wladwriaethau'r UE yn 2010 fod manwerthu nwyddau at ei gilydd yn weithgarwch gwasanaethu sy'n syrthio o fewn cwrpas y Gyfarwyddeb Gwasanaethau. O'r blaen, doedd gweithgareddau o'r fath ddim yn cael eu cyfrif fel pe baen nhw o fewn cwrpas y Gyfarwyddeb a chafodd y newid dehongliad hwn ei ddisgrifio yn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad yn 2009 ar ddiwygio'r gyfundrefn masnachu stryd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011.²
3. Y ddogfen hon yw ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ynghylch diddymu'r Deddfau Pedleriaid sy'n gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae'n ymdrin hefyd â'r cynigion ar gyfer y gyfundrefn masnachu stryd yng Nghymru a Lloegr. Rhedodd y cyfnod ymgynghori am 19 wythnos a daeth i ben ar 5 Ebrill 2013. Cafodd ei ymestyn ddwywaith i sicrhau

¹ <https://www.gov.uk/government/consultations/street-trading-and-pedlary-laws-a-joint-consultation-on-draft-regulations-to-repeal-the-pedlars-acts-uk-wide-and-make-changes-to-the-street-trading-legislation-in-england-wales-and-northern-ireland>

² [Cyfeiriad at ymateb 2011 – ddim ar gael ar hyn o bryd ar gov.uk] paragraff 23

bod digon o gyfle i'r holl grwpiau o randdeiliaid a oedd â buddiannau yn hyn o beth ymateb.

4. Cafwyd cyfanswm o 183 o ymatebion gan awdurdodau lleol, heddluoedd, pedleriaid, meicro-fusnesau (masnachwyr marchnad yn bennaf) a'u cymdeithasau, sefydliadau eraill ac unigolion. Nid pob un o'r ymatebwyr a atebodd yr holl gwestiynau, yr oedd rhai ohonyn nhw wedi'u cyfeirio at randdeiliaid penodol yn unig, megis awdurdodau lleol neu'r heddlu. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.
5. Bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi eu hymatebion eu hunain ar eu cyfundrefnau masnachu stryd hwythau yn nes ymlaen eleni.

Cynnig i ddiddymu'r Deddfau Pedleriaid

6. Nododd y ddogfen ymgynghori y rhesymau pam mae'r broses o ardystio pedleriaid, sy'n cynnwys yr angen i brofi eich bod yn preswyllo yn yr ardal leol ers o leiaf mis, bod y ceisydd dros 17 oed a'i fod o gymeriad da, yn anghydnaws â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau. Cynigiwyd y dylai'r broses ardystio gael ei ddileu ac y dylai'r Deddfau gael eu diddymu am mai'r cynllun ardystio yw eu prif ddiben. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 1) a oedd yr ymgynghoreion yn cytuno â'r dull gweithredu hwn.
7. Roedd pedleriaid yn gryf yn erbyn diddymu'r Deddfau Pedleriaid a oedd yn eu barn nhw yn cynnig dilysrwydd i'w proffesiwn a gâi ei golli fel arall. Dadleuent y dylai'r Deddfau Pedleriaid gael eu cadw ond eu diwygio i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau.
8. Roedd heddluoedd yn gwerthfawrogi'r broses ardystio am ei bod yn fodd iddyn nhw ffurfio barn a ddylai trwydded gael ei rhoi neu beidio, gan ganiatáu felly i bedler fasnachu. Pe bai ardystio yn dod i ben, roedden nhw'n poeni y ceid cynnydd mewn masnachu o ddrws i ddrws gan fasnachwyr twyllodrus. Roedd llawer o'r unigolion a ymatebodd yn rhannu'r pryder hwn hefyd.
9. Roedd yr awdurdodau lleol hefyd yn poeni y byddai dileu'r broses gofrestru yn rhoi rhwydd hynt i fasnachu annymunol yng nghanol eu trefi. Roedd busnesau masnachu stryd a'u cymdeithasau yn cytuno ac yn awyddus i weld newidiadau i fynd i'r afael â'r hyn oedd yn eu barn nhw yn gystadlu annheg yn erbyn masnachwyr stryd trwyddedig. Mae rhagor o ddadansoddi ar yr ymatebion i'r cynnig hwn i'w weld yn Atodiad B.
10. Yng Ngogledd Iwerddon ddaeth dim ymatebion o sylwedd gan bedleriaid. Roedd cynghorau dosbarth a grwpiau a oedd yn cynrychioli llywodraeth leol yn gadarn yn erbyn y cynnig i ddiddymu'r Deddfau Pedleriaid gan eu bod yn teimlo y byddai gwneud hynny yn tanseilio cyfundrefn trwyddedau masnachu stryd Gogledd Iwerddon, sy'n darparu ar gyfer rheoleiddio masnachwyr stryd symudol a sefydlog. Roedd Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon o'r farn y dylai pedleriaid gael eu rheoleiddio fel masnachwyr stryd.
11. Ychydig yn unig o ymatebion a gafwyd yn yr Alban, gan awdurdodau trwyddedu yn bennaf, a oedd at ei gilydd o blaid camau i foderneiddio'r gyfraith yn y maes hwn.

Ymateb y Llywodraeth

12. Yng ngoleuni'r ymatebion hyn ac ar ôl rhoi rhagor o ystyriaeth i'r sefyllfa gyfreithiol ynglŷn â sut mae'r broses ardystio pedleriaid yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau,

mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â diddymu'r Deddfau Pedleriaid ond yn hytrach diwygio'r broses ardystio i beri ei bod yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb. Bydd y gofyniad ynglŷn â phreswyllo yn yr ardal leol yn cael ei ddileu am ei fod yn gwahaniaethu yn erbyn masnachwyr o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Er bod y terfyn oedran mewn rhai ffyrdd yn dyblygu'r ddeddfwriaeth amddiffyn plant, nid yw'r ddeddfwriaeth honno'n ymdrin â phob math o bedleriaeth ac felly rydyn ni'n credu bod modd cyfiawnhau'r terfyn oedran am resymau polisi cyhoeddus. Nid yw'r gofyniad cyfredol ynglŷn â chymeriad da yn ddigon penodol i fod yn wrthrychol ac mae'n cael ei ddefnyddio mewn modd anghyson ledled y wlad. Byddwn yn gweithio felly gyda'r heddlu i ddatblygu gwiriad newydd ynglŷn â chymeriad da i'w ddefnyddio ledled y Deyrnas Unedig ac sy'n mynd i'r afael â'r methiannau hyn drwy ddefnyddio profiadau o weithdrefnau ardystio eraill.

13. Bydd y diffiniad cyfredol o bedleriaeth yn y Deddfau Pedleriaid yn aros yn ddigynnewid.

Cynigion i ddiwygio Atodlen 4 o'r LGMPA

Paragraff 1 – Esemptiad i bedleriaid

14. Cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid cyflwyno diffiniad modern newydd o bedleriaeth ym mharagraff 1 o Atodlen 4 o'r LGMPA fel y byddai pedleriaid dilys, yn sgil diddymiad arfaethedig y Deddfau Pedleriaid, yn dal i gael eu hesemptio rhag y gyfundrefn genedlaethol ynglŷn â masnachu yn y stryd. Cafodd y diffiniad ei ddatblygu fel cyfaddawd rhwng gofynion cyfyngol rhai Deddfau awdurdodau lleol a'r diffiniad cyfredol llac iawn yn y Deddfau Pedleriaid sy'n gymwys ledled y Deyrnas Unedig a chafodd ei seilio ar ofyniad bod rhaid i bedler gario'i nwyddau a pheidio ag aros i fasnachu mewn un man. Cafodd disgrifiadau o faint y cynhwysydd a ganiateid i gario'r nwyddau ac o ystyr "mobile" eu cynnig. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 2) a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig.
15. Er eu bod yn cydnabod bod y diffiniad presennol wedi mynd yn hen ac yn derbyn egwyddor yr un newydd arfaethedig, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r disgrifiadau o sut y byddai'n gymwys, a hynny o ddau safbwynt cyferbyniol. Credai pedleriaid y byddai'r disgrifiadau arfaethedig yn llyffetheirio'u gallu i fasnachu'n rhydd, a hynny'n amhriodol. Roedd yr awdurdodau lleol yn teimlo bod y disgrifiadau arfaethedig yn rhy "hael" ac na fydden nhw'n ymarferol. Roedd y cymdeithasau masnachu marchnad, y sefydliadau eraill a'r unigolion a gynigiodd sylwadau hefyd yn gwrthwynebu. Ceir rhagor o ddadansoddi ar yr ymatebion ar y mater hwn ym Mhennod 2.
16. Yng ngoleuni'r anghytuno cyffredinol â'r diffiniad arfaethedig a'r cyferbyniad rhwng ymatebion y pedleriaid ac ymatebion yr awdurdodau lleol a'r ymatebwyr eraill, rydyn ni'n credu ei bod yn annhebyg bod modd dod o hyd i ddiffiniad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr ac **felly mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â newid yr esemptiad yn Atodlen 4 i bedleriaid ardystiedig, gan adael y diffiniad presennol o bedleriaeth yn y Deddfau Pedleriaid yn ddigynnewid.**

Masnachwyr sefydledig a masnachwyr dros dro

17. Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau yn gwahaniaethu rhwng dau gategori o ddarparwyr gwasanaethau – y rhai sy'n arfer y rhyddid i ymsefydlu (masnachwr sefydledig) a'r rhai sy'n arfer yr hawl i ddarparu gwasanaethau ar draws ffiniau mewn Aelod-wladwriaeth heblaw'r un y maen nhw wedi ymsefydlu ynddi (masnachwr dros dro). Mae Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau yn nodi'r gofynion ar gyfer cynllun awdurdodi i fasnachwyr

sefydledig ac mae Erthygl 16 yn nodi'r gofynion ar gyfer masnachwyr dros dro. Mae gofynion Erthygl 16 yn anos eu bodloni ac felly gall fod amgylchiadau lle gall cynllun awdurdodi gael ei gymhwyso at fasnachwyr sefydledig ond nid at fasnachwyr dros dro. Mae'r paragraffau a ganlyn yn cyfeirio at y gwahaniaeth pwysig hwn rhwng y ddau fath o fasnachwr.

Paragraff 2 – Pŵer i ddynodi strydoedd yn strydoedd trwydded neu'n strydoedd cydsyniad

18. Cynigiodd yr ymgynghoriad ddiwygio paragraff 2 o Atodlen 4 fel y dylai'r awdurdodau lleol, yn ychwanegol at gael dynodi strydoedd ar gyfer masnachwyr sefydledig a masnachwyr dros dro, gael dynodi strydoedd trwydded neu strydoedd cydsyniad ar wahân ar gyfer masnachwyr sefydledig yn unig. Bwriad hyn oedd galluogi'r awdurdodau lleol i fanteisio ar y cyfyngiadau llai y mae modd eu cyfiawnhau o dan y Gyfarwyddeb Gwasanaethau i fasnachwyr sefydledig o'u cymharu â masnachwyr dros dro. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 3) a allai'r awdurdodau lleol rag-weld amgylchiadau lle byddai'n ddefnyddiol dynodi stryd fel stryd drwydded neu stryd gydsyniad ar gyfer masnachwyr sefydledig ond nid ar gyfer masnachwyr dros dro.
19. O'r 50 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, allai 27 o'r awdurdodau lleol ddim rhag-weld sefyllfa o'r fath a doedden nhw ddim yn credu y byddai pŵer ychwanegol o'r fath yn ddefnyddiol gan y bernid ei fod yn annheg ac yn peri dryswch. Roedd hyn yn cyferbynnu â'r 19 a gredai y byddai'n ddefnyddiol, er enghraifft i'w defnyddio mewn safleoedd amlwg iawn yn yr awyr agored.
20. **Drwyddi draw ac yng ngoleuni'r ymatebion hyn, nid yw'r Llywodraeth yn credu bod achos cryf dros newid y pŵer dynodi hwn.**

Paragraff 3 – Ceisiadau am drwyddedau i fasnachu yn y stryd

Ceisiadau electronig

21. Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cais sydd o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb allu cael ei wneud yn electronig. Cynigiodd yr ymgynghoriad egluro bod hyn yn wir o ran ceisiadau am drwyddedau i fasnachu yn y stryd drwy ddiwygio'r gofyniad ynglŷn â dau ffotograff ym mharagraff 3(3) o Atodlen 4 i un yn unig wrth wneud y cais yn electronig. Gofynnwyd (Cwestiwn 4) a oedd yr ymgynghoreion yn cytuno â hyn. Roedd pob un o'r 49 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig, ac felly hefyd chwech o'r saith o heddluoedd, y pedair cymdeithas masnachwyr marchnad, a'r ddwy Ardal Gwella Busnes a ymatebodd.
22. **Bydd y Llywodraeth felly yn diwygio paragraff 3(3) o Atodlen 4 fel mai un ffotograff yn unig a fydd yn angenrheidiol pan fydd yn cais yn cael ei wneud yn electronig.**

Seiliau dros wrthod trwydded – oedran isaf

23. Mae paragraff 3(4)a yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wrthod rhoi trwydded i blentyn o dan 17 oed. Er hynny, mae yna ddeddfwriaeth arall (Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933) sy'n darparu amddiffyniad mwy penodol i blant ac mae'n ymddangos felly fod y gofyniad hwn yn afreidiol. I gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau, dylai cyfyngiadau sy'n gymwys wrth i drwydded gael ei rhoi fod yn gymesur a dadleuai'r ymgynghoriad nad oedd yn gymesur cadw'r seiliau yn Atodlen 4 dros wrthod ar sail oed yn ychwanegol at yr amddiffyniad digonol a gynigir gan Ddeddf 1933. Gan hynny, cynigiodd yr ymgynghoriad y dylai'r gofyniad cyfredol bod rhaid gwrthod trwydded i

blentyn o dan 17 oed gael ei ddisodli â gofyniad bod rhaid gwrthod rhoi trwydded pe bai rhoi trwydded yn mynd yn groes i'r Ddeddf Plant a Phobl Ifanc. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 5) am sylwadau ar hyn ac am amcangyfrif o nifer y ceisiadau a ddisgwyliod oddi wrth bobl o dan 17 oed.

24. O'r 28 o awdurdodau lleol a ymatebodd, roedd 17 yn cytuno â'r rhesymeg dros ddileu'r seiliau hyn dros wrthod trwydded, gan ddweud bod y terfyn oedran yn fypwyol ac nad oedd yn fuddiol. Cododd rhai o'r 10 a anghytunodd bryderon ei bod yn bosibl na fyddai deddfwriaeth amddiffyn plant yn ddigon yng nghyd-destun masnachu ar y stryd ac nad oedd statws contract rhwng prynwr a gwerthwr yn glir os oedd y masnachwr o dan 17 oed. Roedd Cyngor Dinas Plymouth yn poeni am bobl ifanc yn masnachu cynhyrchion lle ceir gofyniad ynglŷn ag oedran isaf, megis cyllyll, ac roedd Cyngor Dinas Sheffield yn credu nad oedd y deddfwriaeth bresennol ar amddiffyn plant yn ddigonol i amddiffyn plant uwchlaw oedran ysgol orfodol yng nghyd-destun masnachu yn y stryd. Roedd yr amcangyfrifon o nifer tebygol y ceiswyr o dan 17 oed yn amrywio o ddim un i ddeg y flwyddyn.
25. Mae'r Llywodraeth yn credu bod y cyfyngiadau penodol yn y Ddeddf Plant a Phobl Ifanc ar gynnwys plant mewn masnachu yn y stryd yn ddigon o amddiffyniad. O ran contractau, mae egwyddorion arferol y gyfraith gyffredin ar gontractau'n gymwys i gontractau rhwng plant o dan oed ac oedolion yng nghyd-destun masnachu yn y stryd a phedleriaeth. O ran pobl ifanc yn masnachu nwyddau cyfyngedig megis cyllyll, mae yna ddeddfwriaeth arall sy'n gosod cyfyngiad ar werthu eitemau penodol.
26. Yng ngoleuni'r ffaith bod y mwyafrif o blaid y cynnig, **fe fydd y Llywodraeth felly yn disodli'r sail orfodol dros wrthod trwydded i geiswyr o dan 17 oed ag un sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wrthod rhoi trwydded pe bai Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn cael ei thorri drwy roi'r drwydded.**

Seiliau eraill dros wrthod trwydded

27. O dan baragraff 3(6), mae gan yr awdurdodau lleol ddisgresiwn i wrthod cais am drwydded i fasnachu yn y stryd ar un o saith o seiliau. Awgrymodd dadansoddiad y Llywodraeth o gydnawsedd â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau fod un o'r rhain yn anghydnaws a bod angen addasu dwy arall. Roedd yn bosibl cyfiawnhau'r lleill er y byddwn yn egluro ym mharagraff 3(6)(d) fod rhaid i'r ymadrodd "for any reason" gydymffurfio â rheoliad 24(3) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009.
28. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 6) a fyddai'n ddefnyddiol pe bai'r Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau ar y seiliau dewisol a allai gael eu cyfiawnhau: 3(6)a – lle annigonol; 3(6)d – addasrwydd y ceisydd; 3(6)e ac f – methu talu ffioedd/taliadau. O'r 39 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 33 yn cytuno y byddai canllawiau'n ddefnyddiol. Teimlai'r pump o ymatebwyr a anghytunodd fod y Ddeddf yn ddigon clir a bod yr awdurdodau lleol wedi arfer â'i dehongli.
29. Yng ngoleuni hyn, **bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau ar yr amgylchiadau y caniateir defnyddio'r seiliau dewisol 3(6)a, 3(6)d, 3(6)e a 3(6)f odanyn nhw.**
30. Nododd yr ymgynghoriad farn y Llywodraeth y dylai un o'r seiliau hyn: 3(6)b – sef bod digon o siopau neu fasnachwyr stryd yn y stryd yn barod sy'n masnachu yn nwyddau'r ceisydd – gael ei dileu gan ei bod yn anghydnaws â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau. Er hynny, gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 7), a ellid rhag-weld amgylchiadau lle

gallai'r sail hon gael ei defnyddio mewn modd cydnaws. Er bod saith o'r 40 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn wedi esbonio pam roedden nhw'n teimlo ei bod yn sail werthfawr i awdurdod lleol ei defnyddio wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau i fasnachu yn y stryd, nid yw'r Llywodraeth wedi'i darbwylllo bod modd i'r sail hon gael ei defnyddio mewn modd sy'n gydnaws â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau.

31. **Er gwaethaf y gefnogaeth i gadw'r seiliau hyn, nid yw'r Llywodraeth yn credu bod modd cyfiawnhau seiliau paragraff 3(6)b o dan y Gyfarwyddeb Gwasanaethau ac felly does ganddi ddim opsiwn ond ei ddiddymu.**
32. I wneud iawn am golli 3(6)b, awgrymodd yr adran hon o'r ymgynghoriad hefyd y dylai seiliau newydd gael eu cynnwys ym mharagraff 3(6) i alluogi'r awdurdod lleol i wrthod cais am drwydded pe bai o'r farn bod stryd yn anaddas ar gyfer y math o fasnachu yr oedd y ceisydd yn awyddus i'w ddefnyddio. Eglurodd yr ymgynghoriad y byddai'n rhaid i seiliau o'r fath gael eu harfer mewn modd a fyddai'n gydnaws â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau gan ofyn (Cwestiynau 7.1 – 7.3) a fyddai seiliau o'r fath yn ddefnyddiol, beth fyddai'r costau tebyg ac a fyddai angen canllawiau ynghylch eu defnyddio. Cafodd yr awgrym hwn ei wneud mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan yr awdurdodau lleol cyn yr ymgynghoriad y byddai'r posibilrwydd o ddileu a diwygio'u seiliau dros wrthod yn amharu ar eu gallu i reoli amgylchedd y strydoedd yn eu trefi.
33. Er hynny, ers lansio'r ymgynghoriad, mae ymagwedd y Llywodraeth at ddadreoledio mewn deddfwriaeth yn gyffredinol ac yn y ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar fusnesau yn benodol, wedi cryfhau. Mae'r holl ddeddfwriaeth sy'n bwriadu cyfyngu ar fusnesau neu gynyddu eu costau – a byddai'r seiliau dewisol hyn yn gwneud y ddau – yn destun gwaith craffu dwys. Hefyd, mae ymagwedd y Llywodraeth at roi deddfwriaeth yr UE ar waith hefyd wedi tynhau o ran peidio â mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n wirioneddol angenrheidiol er mwyn rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith.
34. O'r 36 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 30 o blaid y cynnig. Roedd y senarios a gynigiwyd o ran pryd y byddai'n ddefnyddiol yn cynnwys y byddai'n helpu i warchod diogelwch y cyhoedd pe bai yna ddigwyddiadau arbennig neu waith ffordd neu y gallai gael ei defnyddio i wrthod trwydded i werthu bwyd cyflym yn agos i ysgol. Ond, er gwaethaf y gefnogaeth i'r cynnig, doedd y dystiolaeth a gafwyd ar sut y gallai'r seiliau hyn gael eu defnyddio ddim yn ddigon o'i chymharu â'r safon uchel roedd ei hangen i gyfiawnhau'r rheoliad a fyddai'n angenrheidiol er mwyn bwrw ymlaen. Gan hynny, **nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno seiliau dewisol newydd dros wrthod trwydded ar sail addasrwydd stryd benodol.**
35. Roedd yr ymgynghoriad o'r farn bod seiliau dewisol 3(6)c – bod ar y ceisydd eisiau masnachu am nifer rhy fach o ddiwrnodau bob wythnos – a 3(6)g – bod y ceisydd wedi methu defnyddio digon ar drwydded flaenorol – yn anghydnaws ag Erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau o ran masnachwyr dros dro er y gallen nhw gael eu cyfiawnhau o ran masnachwyr sefydledig o dan rai amgylchiadau. Cynigiwyd felly y dylen nhw gael eu haddasu i atal y seiliau rhag cael eu defnyddio ar gyfer masnachwyr dros dro. Un opsiwn oedd eu diddymu'n llwyr.
36. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 8) a oedd yna amgylchiadau lle gallai'r seiliau presennol gael eu defnyddio mewn modd a fyddai'n gydnaws ac a fyddai'r seiliau diwygiedig yn cael eu defnyddio ar gyfer masnachwyr sefydledig yn unig mewn gwirionedd. O'r 32 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, ni allai 28 weld

unrhyw amgylchiadau lle byddai'r seiliau hyn yn gydnaws o ran masnachwyr dros dro ac roedd yr ymatebwyr i gyd yn cytuno â'r cynnig i'w diwygio, yn hytrach na'u diddymu.

Bydd y Llywodraeth felly yn diwygio seiliau dewisol 3(6)c a 3(6)g fel eu bod yn methu cael eu defnyddio o ran masnachwyr dros dro.

37. O ran pa bryd y gallai'r seiliau yn 3(6)c a 3(6)g gael eu cyfiawnhau ar gyfer masnachwyr sefydledig, dadleuai'r ymgynghoriad na fyddai'r rhain yn gydnaws â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau ond pe bai yna alw ymhlith darpar fasnachwyr eraill am drwydded i fasnachu yn y stryd o dan sylw. Cynigiwyd diwygio'r paragraff hwn i sicrhau mai dim ond pe bai'r amodau hyn wedi'u bodloni y câi'r seiliau hyn eu defnyddio. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiynau 8.2 – 8.3) a fyddai'r awdurdodau lleol yn parhau felly i ddefnyddio'r seiliau ar gyfer masnachwyr sefydledig ac a allen nhw rag-weld unrhyw anawsterau yn yr amodau arfaethedig.
38. O'r 34 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiynau hyn, teimlai 18 y bydden nhw'n dal i ddefnyddio'r seiliau hyn am ei bod yn afresymol i drwyddedau gael eu hadnewyddu pe na baen nhw'n cael eu defnyddio'n ddigonol gan ddeiliad y drwydded. Roedd ychydig yn llai, sef naw o ymatebwyr, yn credu na fydden nhw'n defnyddio'r seiliau hyn – roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys nad oedden nhw wedi'u defnyddio yn y gorffennol neu eu bod yn hyblyg ynglŷn â defnyddio trwyddedau neu eu bod yn teimlo y dylai fod gan yr awdurdod lleol ddisgresiwn ynglŷn â gwrthod trwydded.
39. O ran y cwestiwn a fyddai problemau ynglŷn â'r amodau arfaethedig, roedd 19 o'r awdurdodau lleol a gynigiodd sylwadau yn credu y byddai yna anawsterau wrth eu rhoi ar waith ond roedd yn ymddangos bod hyn wedi'i seilio'n bennaf ar y farn y dylen nhw gael defnyddio'u disgresiwn a/neu na ddylai masnachwyr sefydledig a masnachwyr dros dro gael eu trin yn wahanol. Doedd ychydig yn llai, sef 15, ddim yn gweld problemau penodol ynglŷn â'r amodau.
40. Yng ngoleuni'r ymatebion hyn, **bydd y Llywodraeth yn diwygio paragraff 3(6)c a 3(6)g i atal yr awdurdodau lleol rhag defnyddio'r seiliau dewisol hyn i wrthod trwydded i fasnachwr sefydledig oni bai bod yna alw gan fasnachwr sefydledig arall am ddefnyddio'r drwydded.**
41. Disgrifiodd yr ymgynghoriad sut mae paragraff 3(8) yn gwahaniaethu yn erbyn masnachwyr o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig drwy ganiatáu amddiffyniad yn erbyn gwrthod trwydded ar gyfer safle penodol os yw'r ceisydd wedi cael trwydded am y safle hwnnw o'r blaen. Cynigiwyd diddymu'r paragraff hwn, a gofynnwyd (Cwestiwn 9) a allai'r ymgynghoreion weld unrhyw broblemau ynglŷn â hynny ac a oedden nhw'n cytuno â dadansoddiad yr ymgynghoriad.
42. O'r 31 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, doedd 28 ddim yn gweld unrhyw broblemau ynglŷn â diddymu'r seiliau hyn a chytunodd 22 â'r dadansoddiad. Roedd y rhai a anghytunodd â'r dadansoddiad yn anghytuno â'r rhagdybiaeth y dylai pob cais gael ei ystyried ar sail ei ragoriaethau ni waeth pa wlad yr oedd y ceisydd yn dod ohoni. Mae'n eglur bod hyn yn wahaniaethol a **bydd y Llywodraeth felly yn diddymu paragraff 3(8) o Atodlen 4.**

Paragraff 4 – Hyd trwyddedau i fasnachu yn y stryd

43. Cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid dileu'r manylion ym mharagraff 4(6) ynglŷn â chyfnod amser dilysrwydd trwyddedau i fasnachu yn y stryd, sef 12 mis ar hyn o bryd. Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau yn gwahardd gosod awdurdodiad am gyfnod cyfyngedig ac eithrio o dan amgylchiadau penodol. Er hynny, i atal newydd-ddyfodiaid rhag cael eu cau allan o'r farchnad, cydnabu'r ymgynghoriad y byddai angen i'r awdurdodau lleol ofalu peidio â chynnig trwyddedau hir pan fyddai'r galw amdany'n nhw yn fawr. Ar y llaw arall, byddai angen iddyn nhw osgoi cyfyngiadau diangen pan fyddai'r galw yn fach. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 10) a oedd yr ymgynghoreion yn rhag-weld unrhyw broblemau ynglŷn â dileu'r cyfnod amser, beth fyddai effaith trwyddedau hirach a pha gyfnodau yr oedden nhw'n debyg o'u defnyddio.
44. O'r 42 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, doedd 36 ddim yn rhag-weld problemau ynglŷn ag estyn cyfnod amser trwyddedau, ar yr amod bod ganddyn nhw hyblygrwydd i wneud hynny ar sail rhagoriaethau pob cais. Roedd ychydig, sef 16, yn poeni y gallai trwyddedau hirach gynyddu'r rhwystrau a fyddai'n atal masnachwyr newydd. O'r 36 o awdurdodau lleol a gynigiodd sylwadau ar y cyfnod amser, roedd hanner yn credu y bydden nhw'n defnyddio cyfnodau trwyddedu o fwy na 12 mis a chredai 15 y bydden nhw'n cadw'r cyfnod yn 12 mis. Ar gyfer trwyddedau hirach, roedd y cyfnodau a awgrymwyd yn amrywio rhwng blwyddyn a phum mlynedd.
45. Yng ngoleuni'r ymatebion hyn, **bydd y Llywodraeth yn dileu manylion cyfnod dilysrwydd trwyddedau i fasnachu yn y stryd ac yn disgwyl i'r awdurdodau lleol gymryd yr angen i osgoi cyfyngiadau amhriodol ar fynediad i'r farchnad i ystyriaeth wrth iddyn nhw osod cyfnod amser.**

Paragraff 5 – Dirymu trwyddedau i fasnachu yn y stryd

46. Ochr yn ochr â'r newidiadau ym mharagraff 3(6) a ddisgrifiwyd uchod ynghylch seiliau dros wrthod cais am drwydded, cynigiodd yr ymgynghoriad ddiddymu neu ddiwygio'r seiliau cyfatebol ym mharagraff 5(1) ynglŷn â dirymu trwydded.
47. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 11) a fyddai'n ddefnyddiol pe bai'r Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y seiliau dros ddirymu a allai gael eu cyfiawnhau o dan y Gyfarwyddeb Gwasanaethau: 5(1)a – lle annigonol; 5(1)b – anaddasrwydd deiliad y drwydded; 5(1)c – methu talu ffioedd/taliadau. Roedd bron y cyfan o'r 35 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol ac felly **fe fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau ar yr amgylchiadau y gall y seiliau dros ddirymu ym mharagraff 5(1)a, 5(1)b a 5(1)c gael eu defnyddio odany'n nhw.**
48. Barnwyd bod y seiliau dewisol dros ddirymu trwydded a geir ym mharagraff 5(1)d – methu defnyddio digon ar y drwydded – yn yr un modd â'r seiliau dewisol cyfatebol dros wrthod, yn anghydnaws â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau o ran masnachwyr dros dro. Gan hynny, cynigiodd yr ymgynghoriad ddiwygio'r seiliau hyn fel na allen nhw gael eu defnyddio ar gyfer masnachwyr dros dro a gofynnwyd (Cwestiwn 11.1 – 11.2) a oedd yna amgylchiadau lle y gallai'r seiliau gael eu defnyddio mewn modd cydnaws ar gyfer masnachwyr dros dro ac a ddylen nhw gael eu diwygio neu eu diddymu.
49. O'r 31 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, doedd 20 ddim yn credu y gallai'r seiliau hyn gael eu defnyddio mewn modd cydnaws ar gyfer masnachwyr dros dro.

Doedd dim teimlad cryf iawn o blaid diwygio yn hytrach na diddymu, er bod ychydig yn fwy o'r ymatebwyr o blaid diwygio.

50. Yn achos masnachwyr sefydledig, gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 11.3) a oedd yr awdurdodau lleol yn rhag-weld anawsterau o ran cyfyngu'r amgylchiadau y gallai'r seiliau hyn gael eu defnyddio odanynt pan oedd yna alw am drwydded ymysg darpar fasnachwyr eraill.
51. O'r 31 o awdurdodau lleol a atebodd y cwestiwn hwn, doedd 23 ddim yn rhag-weld anawsterau wrth roi'r amod hwn ar waith.
52. **Bydd y Llywodraeth felly yn diwygio paragraff 5(1)d er mwyn atal yr awdurdodau lleol rhag defnyddio'r seiliau dewisol hyn i ddirymu trwydded i fasnachwr sefydledig oni bai bod galw gan fasnachwr sefydledig arall am gael defnyddio'r drwydded.**

Paragraff 6 – Datgymhwyso Rheoliad 19(5) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau o dan rai amgylchiadau

53. Mae Cyfarwyddeb Gwasanaethau'r UE yn cael ei roi ar waith yn y Deyrnas Unedig drwy Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009 (PSRs) a disgrifiodd yr ymgynghoriad sut mae rheoliad 19(5) yn golygu y bernir bod y drwydded wedi cael ei rhoi os nad yw cais masnachwr sefydledig yn cael ei brosesu o fewn y cyfnod a bennir gan reoliad 19, oni bai bod trefniadau gwahanol wedi'u sefydlu. Ond mae'n rhaid i'r trefniadau hyn gael eu cyfiawnhau gan resymau budd cyhoeddus llethol (ORRPI) fel y'u pennir gan Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb. Ar hyn o bryd, nid yw Atodlen 4 o'r LGMPA yn gwneud trefniadau o'r fath.
54. Gan nad yw Atodlen 4 yn gwneud trefniadau i reoliad 19(5) o'r PSRs gael ei ddatgymhwyso o dan unrhyw amgylchiadau, mae yna wrthdaro ar hyn o bryd rhwng y ddarpariaeth yn rheoliad 19(5) o'r PSRs sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi farnu bod trwydded wedi'i rhoi yn awtomatig os nad yw'r awdurdod lleol wedi prosesu'r cais am drwydded o fewn cyfnod penodedig o amser, a bodolaeth yr amgylchiadau yn Atodlen 4 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wrthod ceisiadau am drwyddedau. Gan hynny, dylai rheoliad 19(5) gael ei ddatgymhwyso os oes yna seiliau gorfodol dros wrthod – cynigiodd yr ymgynghoriad wneud hyn drwy ddiwygio paragraff 6 o'r Atodlen.
55. Awgrymodd yr ymgynghoriad hefyd y gallai'r awdurdodau lleol ddymuno creu trefniadau gweinyddol i ddatgymhwyso rheoliad 19(5) lle na fyddai seiliau gorfodol dros wrthod yn gymwys (a bwrw bod modd cyfiawnhau trefniadau o'r fath drwy un neu ragor o resymau budd cyhoeddus llethol). Awgrymwyd hefyd y gallen nhw ddymuno pennu yn weinyddol pa drefniadau a fyddai'n gymwys i drwydded am fasnachu yn y stryd y bernid ei bod wedi'i rhoi o dan reoliad 19(5) am fod y cais heb gael ei brosesu mewn pryd.
56. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 12) a oedd yr ymgynghoreion yn rhag-weld unrhyw broblemau ynglŷn â'r cynigion hyn ac a ddylai fod gan yr awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddatgymhwyso rheoliad 19(5). Dim ond un o'r 31 o ymatebwyr a oedd yn gweld problemau ynglŷn â datgymhwyso rheoliad 19(5) rhag Atodlen 4 lle roedd yna seiliau gorfodol dros wrthod trwydded ac roedd 18 yn cytuno y dylai fod gan yr awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddatgymhwyso rheoliad 19(5) neu i bennu canlyniadau trwydded y bernid ei fod wedi'i rhoi.

57. **Bydd y Llywodraeth felly yn diwygio paragraff 6 o Atodlen 4 i ddatgymhwyso rheoliad 19(5) o'r PSRs lle mae seiliau gorfodol dros wrthod yn bodoli.**

Paragraff 7 – Cydsyniadau ar gyfer masnachu yn y stryd

58. Disgrifiodd yr ymgynghoriad ddau ddiwygiad canlyniadol i baragraff 7 i adlewyrchu'r newidiadau a ddisgrifiwyd uchod, sef: diwygio paragraff 7(3)a yng ngoleuni'r newidiadau i 3(4)a (seiliau gorfodol dros wrthod cais pe bai'r cais yn torri'r ddeddfwriaeth ar gyflogi plant); a datgymhwyso rheoliad 19(5) o'r PSRs, yng ngoleuni'r newidiadau i baragraff 6 a ddisgrifiwyd uchod, lle mae seiliau gorfodol dros wrthod y cais yn gymwys.
59. Cynigiodd yr ymgynghoriad hefyd y dylai fod gan yr awdurdodau lleol y gallu i lacio'n llwyr ar y gwaharddiadau a ddisgrifiwyd ym mharagraff 7(7) o Atodlen 4 ynghylch masnachu mewn strydoedd cydsyniad o fan neu gerbyd arall neu o stondin, berfa neu gert. Ar hyn o bryd, gallu cyfyngedig yn unig i wneud hyn a geir ym mharagraff 7(8).
60. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 13) a oedd yr ymgynghoreion yn rhag-weld unrhyw broblemau ynglŷn â gwneud hyn a doedd 41 o'r 44 a ymatebodd ddim yn rhag-weld problemau. **Bydd y Llywodraeth felly yn diwygio paragraff 7 o Atodlen 4 i ganiatáu i'r awdurdodau lleol lacio'r gwaharddiadau ym mharagraff 7(7) yn eu cyfanrwydd lle bo'n briodol.**
61. **Bydd y Llywodraeth hefyd yn dileu'r manylion ynglŷn â chyfnod dilysrwydd cydsyniadau i fasnachu yn y stryd ac yn egluro ar yr un pryd y dylai'r cyfnod a bennir gymryd i ystyriaeth yr angen i osgoi cyfyngu'n amhriodol ar fynediad i'r farchnad.** Mae hyn yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r diwygiad i 4(6) – cyfnod trwyddedau – a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 43-45.

Paragraff 10 – Troseddau

62. Cynigiodd yr ymgynghoriad ddiwygiad canlyniadol i baragraff 10(1)d i adlewyrchu'r newidiadau ym mharagraff 7 a ddisgrifiwyd uchod er mwyn sicrhau bod torri'r gwaharddiad diwygiedig yn dal yn drosedd. Gofynnwyd (Cwestiwn 14) a oedd yr ymgynghoreion yn rhag-weld unrhyw broblemau ynglŷn â hyn a doedd 41 o'r 44 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn ddim yn rhag-weld problemau. **Bydd y Llywodraeth felly yn gwneud diwygiadau canlyniadol i baragraff 10(1)d o Atodlen 4 i adlewyrchu'r diwygiadau ym mharagraff 7.**

Sgrinio deddfwriaeth awdurdodau lleol a diwygiadau canlyniadol

63. Rhestrod y ddogfen ymgynghori y ddeddfwriaeth leol ar fasnachu yn y stryd a oedd yn hysbys i'r Adran ar y pryd ac yr oedd angen ei sgrinio i weld a oedd yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau a gofynnwyd (Cwestiwn 15) a oedd yna ddeddfwriaeth arall o fewn rhychwant y Gyfarwyddeb, a oedd angen newidiadau ynddi o ganlyniad i newidiadau ac a oedd yr awdurdodau lleol am i'r Llywodraeth gynnwys y rhain yn ei his-ddeddfwriaeth. Gofynnodd Cwestiwn 17 am fanylion y newidiadau hyn ac am ddarpariaethau wedi'u drafftio mewn modd priodol. Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd (Cwestiwn 16) am ddiwygiadau canlyniadol y byddai eu hangen pe baen ni'n bwrw ymlaen â'r cynnig i ddiddymu'r Deddfau Pedleriaid.


64. Cafwyd diwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth leol o Bournemouth, Cynghorau Llundain, Caer-grawnt, Leeds, Caerlŷr, Lerpwl, Maidstone, Manceinion, Medway, Nottingham a Reading.

Casgliadau a'r camau nesaf

65. Yn sgil gwrthwynebiad cryf i'r cynnig i ddiddymu'r Deddfau Pedleriaid ac i'r diffiniad newydd arfaethedig o bedleriaeth, mae'r Llywodraeth wedi ailystyried y ffordd orau i sicrhau bod cyfundrefn y Deyrnas Unedig ynglŷn â phedleriaeth yn dal i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau. Mae'r Llywodraeth yn credu bod diwygio'r broses ardystio er mwyn sicrhau bod y gwiriad cymeriad da yn fwy gwrthrychol, ond dileu'r gofyniad ynglŷn â phreswylfa, yn well ffordd ymlaen. Mae'n cadw'r rheolaeth y bydd ar yr awdurdodau lleol a'r heddlu ei hangen i fynd i'r fael â masnachu anghyfreithlon yn y stryd ond ar yr un pryd yn cadw'r effaith ar bedleriaid mor fach a phosibl. Yn bwysig ddigon, mae'r cadw deddfwriaeth y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud yn benodol â phedleriaeth – roedd hyn yn fater holl-bwysig i lawer o bedleriaid a oedd yn credu ei bod yn hanfodol o ran eu dilysrwydd nhw fel proffesiwn.
66. Cafwyd llawer mwy o gonsensws o blaid y cynigion i ddiwygio'r gyfundrefn masnachu yn y stryd i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb ac mae'r Llywodraeth wedi llwyddo i gyd-fynd â barn y mwyafrif ran amlaf.
67. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y penderfyniadau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon yn taro cydbwysedd rhwng safbwyntiau sydd yn aml yn gyferbyniol. Yn aml, byddai awdurdodau lleol sy'n gweithio i wneud eu canol trefi yn fannau deniadol a diogel i bobl siopa yn hoffi cael mwy o gyfyngiadau yn hytrach na llai. Diben Cyfarwyddeb Gwasanaethau'r Undeb Ewropeaidd, ar y llaw arall, yw peri bod masnachu yn haws, boed i fasnachwyr sefydledig ynteu i fasnachwyr dros dro.
68. Bellach bydd y Llywodraeth yn cydweithio â'r heddlu i lunio gwiriad gwrthrychol ynglŷn â chymeriad da ar gyfer proses ardystio'r Deddfau Pedleriaid, gan ddefnyddio profiad o brosesau ardystio eraill. Wedyn cyflwynir is-ddeddfwriaeth o dan adran 2.2 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 i roi eu heffaith i'r newidiadau angenrheidiol yn y Deddfau Pedleriaid ac yn yr LGMPA. Lle mae'r awdurdodau lleol wedi rhoi manylion gwelliannau y mae eu hangen mewn deddfwriaeth leol, byddwn yn cydweithio â nhw i roi'r newidiadau hyn ar waith yr un pryd.
69. Bydd y Llywodraeth hefyd yn cadw mewn cysylltiad agos â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban wrth iddyn nhw ddatblygu eu hymatebion i'r ymgynghoriadau cyfochrog ar eu cyfundrefnau hwythau ynglŷn â masnachu yn y stryd.

Atodiad A – Yr Ymgynghoriad

1. Rhedodd ymgynghoriad 2012/13 am 19 wythnos gan gau ar 5 Ebrill 2013. Cyhoeddwyd hysbysiad i'r wasg ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi ar wefan BIS.³ Cafodd lansiad yr ymgynghoriad sylw gan sawl papur newydd cenedlaethol a lleol a chyhoeddiadau masnach ac ar y teledu yn genedlaethol ac ar-lein. Trefnodd nifer o awdurdodau lleol fod yr ymgynghoriad ar gael ar eu gwefannau a rhoddodd grŵp gwybodaeth y pedleriaid⁴ gyhoedduswydd iddo hefyd a rhoi gwybodaeth am sut i ymateb. Cafodd cyfnod yr ymgynghoriad ei ymestyn ddwywaith er mwyn sicrhau bod yna gyfle digonol i'r holl grwpiau o randdeiliaid oedd â buddiannau gael ymateb.
2. Cafwyd cyfanswm o 183 o ymatebion gan awdurdodau lleol, heddluoedd, pedleriaid, meicro-fusnesau (masnachwyr marchnad yn bennaf) a'u cymdeithasau, sefydliadau eraill ac unigolion. Cafwyd ymatebion drwy'r ebost, y post a thrwy holiadur ar-lein.



3. Cafodd rhai o'r cwestiynau eu cyfeirio at is-set o'r rhanddeiliaid hyn – er enghraifft, at yr awdurdodau lleol neu'r heddlu. Rhoddodd rhai ymatebwyr ymatebion naratif yn hytrach nag ateb y cwestiynau ymgynghori penodol. Atebodd eraill un neu ychydig yn unig o'r cwestiynau.

³ <https://www.gov.uk/government/news/bureaucracy-busting-boost-for-street-traders>

⁴ www.pedlars.info

Atodiad B – Cyfundrefn pedleriaeth y Deyrnas Unedig

Dadansoddiad o'r ymatebion

Pedleriaid

1. Nododd y ddogfen ymgynghori y rhesymau pam mae'r broses o ardystio pedleriaid, sy'n cynnwys yr angen i brofi eich bod yn preswyllo yn yr ardal leol ers o leiaf mis, bod y ceisydd dros 17 oed a'i fod o gymeriad da, yn anghydnaws â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau. Cynigiwyd y dylai'r broses ardystio gael ei ddileu ac y dylai'r Deddfau Pedleriaid gael eu diddymu am mai'r cynllun ardystio yw eu prif ddiben. Gofynnodd yr ymgynghoriad (Cwestiwn 1) a oedd yr ymgynghoreion yn cytuno â'r dull gweithredu hwn.
2. O'r 21 o ymatebion a gafwyd gan bedleriaid (gan gynnwys grwpiau o bedleriaid), roedd pob un ond dau yn erbyn y cynnig i ddiddymu'r Deddfau. Ym marn y rhai a oedd yn erbyn, doedd y dystiolaeth dros eu diddymu ddim yn argyhoeddi ac roedden nhw'n dadlau bod diddymu yn ymateb anghymesur ac y dylai'r Deddfau gael eu diwygio – cynigiodd ymateb gan grŵp gwybodaeth y pedleriaid, yn cynrychioli 57 o bedleriaid, ffyrdd i wneud hyn.⁵ Roedd rhai o'r ymatebwyr yn meddwl bod y broses ardystio yn helpu i warchod y cyhoedd a bod trwydded i bedleriaid yn fuddiol o ran profi pwy oedden nhw. Ofnai rhai y byddai diddymu'r Deddfa yn golygu na fyddai pedleriaid yn gallu masnachu'n gyfreithlon mwyach ac y bydden nhw'n colli eu bywoliaeth (doedd hyn ddim yn wir mewn gwirionedd, gan mai dileu'r cyfyngiadau oedd yn atal pobl rhag mynd yn bedleriaid oedd y cynnig, nid dileu'r hawl i fynd yn bedler). Er hynny, roedd dau o'r ymatebion o blaid diddymu'r Deddfau, gan ddadlau y byddai hynny'n ei gwneud yn haws ichi ddod yn bedler a masnachu fel pedler. Gwelir barn y mwyafrif yn yr ymateb a ganlyn:

“The Pedlars Act protects Pedlars. It does not need to be repealed but needs to be updated to fit inline with the EU [Services Directive] requirements... Having record of good character gives the public protection against unscrupulous traders.”

3. Cwynodd sawl ymateb gan bedleriaid fod deddfwriaeth leol yn cyfyngu'n amhriodol ar eu gallu i fasnachu, er enghraifft drwy eu cyfyngu i fasnachu o dŷ i dŷ yn unig. Roedd eraill yn credu bod yr awdurdodau lleol yn ceisio atal pedleriaid dilys rhag masnachu yng nghanol trefi am eu bod yn teimlo bod hynny'n ddrwg i ddelwedd yr ardal neu'n creu cystadleuaeth annymunol i fasnachwyr stryd trwyddedig.

“The local council have made it clear that they do not want any pedlars within the city centre... my local council have made it clear that if pitches were to become available, I would not be considered since they consider the selling of hotdogs or burgers to be bad for the city image.”

⁵ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/153595/13-737-briefing-document-pedlars-info-written-questions-to-her-majestys-government.pdf

Awdurdodau lleol

- Er bod rhai o'r 73 o awdurdodau lleol a ymatebodd yn cytuno bod y Deddfau Pedleriaid yn hynafol, roedden nhw i gyd yn glir bod angen proses gyfatebol i wirio hunaniaeth ac addasrwydd pobl a oedd yn dymuno masnachu fel pedleriaid. Doedd dim barn gyson a ddylai hyn gael ei wneud drwy gadw a diwygio proses ardystio'r Deddfau Pedleriaid neu drwy ddiddymu'r Deddfau a dod â phedleriaid o dan y gyfundrefn masnachu yn y stryd. Heb ddiwygiad o'r fath, roedd yr awdurdodau lleol yn teimlo y byddai rhwydd hynt i fasnachu didrwydded ac o bosib masnachu anghyfreithlon, a fyddai'n creu effaith negyddol ddifrifol ar ganol trefi a dinasoedd ac ar ddeiliaid tai a oedd yn agored i niwed wrth i bethau gael eu gwerthu o ddrws i ddrws.

"The Councils have concerns that the wholesale repeal of the Pedlars Acts, without any replacement registration provisions (at the very least) is undesirable. (Cynghorau Llundain)

- Roedd yr awdurdodau lleol a oedd yn anghytuno â diddymu'r Deddfau am gael proses ardystio fwy cadarn i bedleriaid gan gynnwys tystysgrif ac arni prawf ffotograffig, yn enwedig wrth werthu o ddrws i ddrws.

"The complete repeal of the Pedlars Acts will effectively give licence for anybody to trade on the street, or house-to-house, with complete anonymity" (Cyngor Dinas Leeds)

- Dadleuai llawer o'r awdurdodau lleol y dylai pedleriaeth gael ei dwyn o dan y gyfundrefn masnachu yn y stryd (Atodlen 4 o'r LGMPA) a'i thrwyddedu mewn modd tebyg i fasnachwyr statig. Roedden nhw'n teimlo bod y gyfundrefn bresennol yn caniatáu i bedleriaid a oedd yn talu swm enwol am dystysgrif gystadlu'n annheg â masnachwyr stryd trwyddedig a oedd yn talu symiau sylweddol am drwydded.

Yr heddlu

- O'r 22 o ymatebion gan yr heddlu, doedd 14 ddim yn erbyn nac o blaid diddymu'r Deddfau ac roedd pump yn erbyn (roddodd y gweddill ddim sylwadau). Ond yn yr un modd â'r awdurdodau lleol, roedden nhw i gyd yn gytûn bod angen cyfundrefn ardystio effeithiol er mwyn gweld pwy oedd y pedleriaid ac er mwyn gwirio eu bod yn addas i fasnachu. Roedd addasrwydd fel rheol yn cael ei wirio drwy edrych ar gronfeydd data'r heddlu. Er hynny, doedd y Deddfau Pedleriaid ddim yn ddefnyddiol ym marn un heddlu a, pe baen nhw'n cael eu diddymu, buasai'r llw hwnnw'n fodlon defnyddio deddfwriaeth arall pe bai'r unigolion o dan sylw yn creu problemau.
- Aeth Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ati i ganfasio'i haelodau ac o ganlyniad fe heriodd y gosodiad yn yr ymgynghoriad fod diffyg tystiolaeth y dylai pedleriaid a oedd yn gweithredu i raddau helaeth o fewn y diffiniad presennol ddod o dan gyfundrefn awdurdodi ac felly nad oedd angen proses ardystio. O'r 2601 o geisiadau am dystysgrif rhwng Ionawr a Rhagfyr 2012, cafodd 160 (6.3%) eu gwrthod a dadleuai ACPO fod hynny'n dangos bod y system ar gyfer hidlo ceiswyr anaddas yn gweithio. Er hynny, roedd yna amrywio sylweddol rhwng yr heddluoedd yn lefel y geisiadau a oedd yn cael eu gwrthod. Gwrthododd un llw (Durham) fwy na hanner y 12 o geisiadau a gafodd mewn cyfnod o 12 mis. Rhoddodd astudiaethau achos o rai o'r rhesymau am hyn, gan gynnwys collfarnau blaenorol am droseddau anonestrwydd, brawychu pobl hŷn a thrafod nwyddau

wedi'u dwyn. Roedd ganddyn nhw dystiolaeth hefyd o geisiadau a wnaed gan ddefnyddio cyfeiriadau ffug.

9. Roedd rhai heddluoedd yn gweld proses ardystio'r Deddfau Pedleriaid yn anodd. Erenghraifft:

"It is outdated and needs to reflect modern trading, it is difficult to administer as there is confusion between Pedlars and Street Traders. No clear guidance on how to administer the system lead[s] to disparity in different force areas, even the certificates themselves differ from force to force. Determining 'good character' is subjective." (Heddlu Northamptonshire)

"A known 'doorstep criminal' with a limited criminal record but with a huge intelligence record of doorstep criminality in his home force area can reside in another force area (for a minimum of a month), and be granted a Pedlars certificate, where the intelligence on him simply is not known. He can then go about his business (legitimate or otherwise) anywhere in the UK, apparently sanctioned by a Chief of Police." (Heddlu Nottinghamshire)

10. Gofynnodd yr ymgynghoriad am gostau'r heddlu wrth weinyddu proses ardystio'r Deddfau Pedleriaid. Rhwng yr 11 o heddluoedd a ymatebodd i'r cwestiwn ar y mater hwn, roedd nifer y ceisiadau'n amrywio'n sylweddol: cafodd Avon a Gwlad yr Haf 133 mewn 12 mis a chafodd Derbyshire rhwng 50 a 60. Fel uchod, dim ond 12 a gafodd Durham a chafodd Bedfordshire dri. Roedd yr amcangyfrifon o'r amser a gymerid i brosesu cais yn amrywio rhwng awr ac ugain munud a phum awr. Roedd yr amcangyfrif o gost prosesu cais fel arfer yn uwch na'r incwm a geid o'r ffi o £12.25 am y dystysgrif, ond roedd yn amrywio'n sylweddol rhwng £12.56 a £75. I rai heddluoedd, roedd y gwaith gweinyddol yn dreth ar eu hadnoddau ac i eraill a oedd yn defnyddio proses fyrrach, roedd yn llawer llai sylweddol.

Meicro-fusnesau

11. Masnachwyr marchnad oedd pawb ond un o'r 13 o feicro-fusnesau a ymatebodd i'r ymgynghoriad (roedd un yn cynnwys deiseb ac arni 62 o lofnodion o Farchnad Top Town Grimsby) ac roedd pob un yn anghytuno â'r cynnig i ddiddymu'r Deddfau Pedleriaid. Eu pryder oedd y byddai gwneud hynny yn rhoi rhwydd hynt i fasnachwyr dienw ac roedd rhai yn credu ei bod yn debyg y ceid cynnydd o ran gwerthu nwyddau ffug neu nwyddau anniogel. Un farn gyffredin oedd ei bod eisoes yn annheg y gallai pedleriaid fasnachu yn yr un mannau â masnachwyr trwyddedig. Mewn rhai achosion roedden nhw'n cystadlu'n uniongyrchol â masnachwyr trwyddedig ond fel arall roedden nhw'n lleihau niferoedd y cwsmeriaid ac yn lleihau atyniad yr amgylchedd ar gyfer masnachu yn y stryd. Byddai diddymu'r Deddfau'n gwaethygu pethau. Dywedodd un ymatebydd:

"I feel that is an unfair proposition to expect licensed traders to be paying for rent and licences when another person can 'plot up' next to you, sell the same products and pay nothing."

Cymdeithasau masnachwyr marchnad

12. Cyflwynodd y cymdeithasau a oedd yn cynrychioli masnachwyr a threfnwyr marchnadoedd a charnifalau ddadleuon tebyg i'r masnachwyr eu hunain. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Awdurdodau Marchnadoedd Prydain (NABMA):

“Implementing the BIS proposals will lead to unfair competition and the lack of a level playing field for market/street traders. This is a major concern...”

13. Doedd NABMA ddim yn derbyn ychwaith na allai gwiriad cymeriad da gael ei barhau mewn cyfundrefn bedleriaeth sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau, gan ddadlau bod angen i gyfreithiau ac amcanion polisi eraill yr UE gael eu cymryd i ystyriaeth.
14. Barn Ffederasiwn Cenedlaethol y Masnachwyr Marchnad oedd bod pedleriaid yn fasnachwyr stryd ac y dylen nhw ddod o dan yr un dulliau rheoleiddio ac awgrymodd un ymatebydd y dylai Atodlen 4 i'r LGMPA fod yn gymwys i Gymru a Lloegr gyfan – ar hyn o bryd, mater i'r awdurdodau lleol unigol yw penderfynu a ddylai gael ei mabwysiadu neu beidio.
15. Cwynai eraill nad oedd pedleriaid yn rhoi dim byd yn ôl yn i'r economi lleol:

“It is extremely frustrating to see these people arrive, set up and start trading with no risk assessment, no health and safety guidelines, no business rates and no wage bill, making huge amounts of money... Money that should be going into the local economy but doesn't.” (Fforwm Busnes Twristiaeth Ardal Padstow)

Ymatebion eraill

16. Ymatebodd dwy Ardal Gwella Busnes yn Llundain, gan rannu'r un farn ag NABMA a masnachwyr marchnad. Doedd un gymdeithas trigolion yn Llundain ddim yn cytuno â diddymu'r Deddfau ac roedd yn gofidio ynglŷn ag unrhyw lacio ar y rheolau ar weithgareddau pedleriaid. Roedd y Sefydliad Safonau Masnach yn cytuno gan gyfeirio at dystiolaeth yr heddlu ynglŷn ag unigolion penodol a oedd yn cymryd arnynt eu bod yn bedleriaid ardystiedig ac a oedd yn rhan o fyrgleriaethau drwy dynnu sylw. Yn lle'r sefyllfa bresennol lle mae'r heddluoedd gwahanol yn rhoi tystysgrifau gwahanol, galwodd y Sefydliad am dystysgrif safonedig i bedleriaid a fyddai'n hawdd i unrhyw swyddog heddlu ei hadnabod.
17. Roedd y Gymdeithas Gwerthu Uniongyrchol (DSA), sy'n cynrychioli cwmnïau sy'n gwerthu mewn mannau heblaw eu mangreoedd (ac nad yw'r un ohonyn nhw'n bedleriaid nac yn fasnachwyr stryd ar hyn o bryd), yn cytuno â'r cynnig y dylid diddymu'r Deddfau Pedleriaid, gan eu bod yn credu ei bod yn aneffeithiol o ran diogelu'r cyhoedd rhag masnachwyr twyllodrus. Dywedodd y DSA eu bod yn erbyn rheoleiddio diangen ac yn credu na ddylai'r rheolau ar fasnachu yn y stryd gael eu hehangu na'u hystyngi.
18. Ar y llaw arall, roedd dau sefydliad chwaraeon – Undeb Rygbi Lloegr a Manchester United Ltd – yn poeni am gynnydd yn ngweithgareddau pedleriaid mewn digwyddiadau mawr, a hynny o safbwynt diogelwch y cyhoedd. Roedd y ddau yn erbyn rhyddfrydoli'r cyfundrefnau pedleriaeth a masnachu yn y stryd.

Unigolion

19. Roedd pob un o'r ymatebion gan unigolion yn erbyn diddymu'r Deddfau Pedleriaid. Anfonwyd y mwyafrif gan bobl a oedd yn gofidio y byddai dadreoleiddio yn peri cynnydd o ran gwerthu o ddrws i ddrws heb wahoddiad neu gynnydd o ran gwerthu nwyddau tila ar y stryd fawr. Roedden nhw'n gofidio hefyd ynglŷn â chynnydd o ran manteisio ar bobl hawdd eu niweidio gan fasnachwyr diegwyddor.

20. Er hynny, roedd dau o'r ymatebwyr yn awyddus i bedleriaid dilys gael yr hawl i fasnachu a byddai diddymu'r Deddfau yn gwneud hynny'n fwy anodd.

Ymateb y Llywodraeth

21. Yng ngoleuni'r ymatebion hyn ac ar ôl rhoi rhagor o ystyriaeth i'r sefyllfa gyfreithiol ynglŷn â sut mae'r broses ardystio pedleriaid yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â diddymu'r Deddfau Pedleriaid ond yn hytrach diwygio'r broses ardystio i beri ei bod yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb. Bydd y gofyniad ynglŷn â phreswyllo yn yr ardal leol yn cael ei ddileu am ei fod yn gwahaniaethu yn erbyn masnachwyr o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Er bod y terfyn oedran mewn rhai ffyrdd yn dyblygu'r ddeddfwriaeth amddiffyn plant, nid yw'r ddeddfwriaeth honno'n ymdrin â phob math o bedleriaeth ac felly rydyn ni'n credu bod modd cyfiawnhau'r terfyn oedran am resymau polisi cyhoeddus. Nid yw'r gofyniad cyfredol ynglŷn â chymeriad da yn ddigon penodol i fod yn wrthrychol ac mae'n cael ei ddefnyddio mewn modd anghyson ledled y wlad. Byddwn yn gweithio felly gyda'r heddlu i ddatblygu gwiriad newydd ynglŷn â chymeriad da i'w ddefnyddio ledled y Deyrnas Unedig ac sy'n mynd i'r afael â'r methiannau hyn drwy ddefnyddio profiadau o weithdrefnau ardystio eraill.
22. Bydd y diffiniad cyfredol o bedleriaeth yn y Deddfau Pedleriaid yn aros yn ddigymffurdd.

Y cynnig i ddiwygio Atodlen 4 i'r LGMPA

Yr esemptiad i bedleriaid

23. Cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid cyflwyno diffiniad modern newydd o bedleriaeth ym mharagraff 1 o Atodlen 4 o'r LGMPA fel y byddai pedleriaid dilys, yn sgil diddymiad arfaethedig y Deddfau Pedleriaid, yn dal i gael eu hesemptio rhag y gyfundrefn genedlaethol ynglŷn â masnachu yn y stryd. Cafodd y diffiniad ei ddatblygu fel cyfaddawd rhwng gofynion cyfyngol rhai Deddfau awdurdodau lleol a'r diffiniad cyfredol llac iawn yn y Deddfau Pedleriaid sy'n gymwys ledled y Deyrnas Unedig a chafodd ei seilio ar ofyniad bod rhai i bedler gario'u nwyddau a pheidio ag aros i fasnachu mewn un man.
24. Roedd y diffiniad penodol yn cynnwys:
- y gallai pedler fasnachu naill ai o dŷ i dŷ neu yn y stryd;
 - yn y stryd, bod rhaid i'r holl nwyddau gael eu cario ar y person neu mewn cynhwysydd na fyddai'n fwy na 2 x 1 x 1 metr (uchder/hyd/lled);
 - y caiff pedler aros yn ei unfan am hyd at 10 munud ac y dylai symud wedyn o leiaf 50 metr i ffwrdd a pheidio â dychwelyd o fewn 50 metr i leoliad lle y bu o'r blaen am dair awr; ond
 - y ceid eithriad i'r rheol 10 munud pe bai darpar gwsmer yn dod at y pedler.
25. Er gwaethaf cydnabyddiaeth bod y diffiniad presennol wedi mynd yn hen ac er derbyn egwyddor yr un newydd, roedd yna anghytuno llwyr bron â'r disgrifiadau o sut y byddai'n gymwys, a hynny o ddau safbwynt cyferbyniol.
26. O'r 12 o ymatebion ar y mater hwn gan bedleriaid a grwpiau pedleriaid, roedd 10 yn erbyn y diffiniad arfaethedig ac roedd dau o'i blaid. Roedd rhai o'r rhai a beidiodd ag ateb

yn gwrthod ystyried y cwestiwn am eu bod yn gwbl wrthwynebus i ddiddymu'r Deddfau Pedleriaid. Roedd y rhai a roddodd resymau dros anghytuno yn credu y byddai'r disgrifiadau o sut y dylai pedleriaid weithredu yn llyffetheirio'n amhriodol ar eu gallu i fasnachu'n rhydd.

"These parameters you propose would be the death knell for myself, my wife and others and would prevent me from trading." (A D ac S Carter)

27. O'r 52 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd chwech o blaid y diffiniad newydd. Roedd 12 arall o blaid ond am iddo gael ei newid mewn amryw o ffyrdd ac yn gofidio sut y câi ei orfodi. Doedd y mwyafrif (34 o ymatebion) ddim yn cytuno â'r diffiniad, naill ai am fod y disgrifiadau'n rhy "hael" neu am eu bod yn anymarferol gyda'r adnoddau gorfodi a oedd ar gael.

"The 10 minute rule as it is currently proposed would make it too easy for pedlars to manipulate the situation and create an artificial audience to justify not moving on after 10 minutes. This would prove almost unenforceable as local authorities and the police will not have sufficient resource to monitor and evidence breaches on this element of the exemption definition." (Cyngor Dinas Caer-grawnt)

"In smaller town centres... The proposals put pedlars more at risk of contravening regulations than complying with them. As an example our town centre consent area is approximately 230 metres long, a pedlar would only be able to stop 4 times before leaving... Monitoring of activity will be very time intensive." (Cyngor Bwrdeistref Newcastle under Lyme)

28. Ychydig yn unig o heddluoedd a gynigiodd sylwadau ar y mater hwn ond roedd y rhai a wnaeth yn fwy cadarnhaol ynglŷn â'r diffiniad – roedd naw yn cytuno ag ef, rhai o dan amodau, ac roedd dau yn anghytuno. Er hynny, mae'n bosibl bod y diffyg manylder yn y mwyafrif o'r ymatebion yn adlewyrchu'r ffaith na fyddai'r heddlu yn rhan o'r gwaith gorfodi.
29. Roedd yr ychydig gymdeithasau masnachu marchnad a gynigiodd sylwadau yn erbyn y diffiniad, gan sôn yn benodol am faint y cynhwysydd arfaethedig a oedd yn eu barn nhw yn fawr ac nad oedd yn gwahardd hongian nwyddau ar estyniadau iddo. Chafwyd dim sylwadau ar y cwestiwn hwn gan feicro-fusnesau masnachwyr marchnad
30. O'r 18 o unigolion a ymatebodd, roedd 13 yn erbyn y diffiniad; cyfeiriodd yr ychydig a esboniodd at wrthwynebiadau tebyg i'r awdurdodau lleol.
31. Roedd y ddau ymateb gan Ardaloedd Gwella Busnes yn cynnwys gwrthwynebiadau tebyg i'r awdurdodau lleol. Roedd gan Manchester United Limited bryderon am faint arfaethedig y cynhwysydd gan ei fod yn rhy fawr ar sail diogelwch. Credai'r Sefydliad Trwyddedu y dylai pedlera gael ei ymgorffori yn y gyfundrefn masnachu yn y stryd.

Ymateb y Llywodraeth

32. Yng ngoleuni'r anghytuno â'r diffiniad arfaethedig a'r cyferbyniad rhwng ymatebion y pedleriaid ac ymatebion yr awdurdodau lleol a'r ymatebwyr eraill, rydyn ni'n credu ei bod yn annhebyg bod modd dod o hyd i ddiffiniad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr ac felly mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â newid yr esemptiad yn Atodlen 4 i bedleriaid

ardystiedig, gan adael y diffiniad presennol o bedleriaeth yn y Deddfau Pedleriaid yn ddigyfnewid.

Atodiad C – Ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Ardal Gwella Busnes Angel Naomi Aptowitzer Gary Armstrong Cymdeithas y Prif Swyddogion Heddlu Cymdeithas Marchnadoedd Llundain Lesley Augur Heddlu Avon a Gwlad yr Haf John H Barham Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf T Batson Battery Cellar Ltd Arddangosfa Gelf Bayswater Road M J Beanland Heddlu Bedfordshire Ardal Gwella Busnes Better Bankside Cyngor Dinas Birmingham Cyngor Bournemouth Mark Bowen Cyngor Bracknell Forest Cyngor Dinas Bryste Cyngor Bromley Frank N Brook W S K Bryan Cyngor Tref Buckingham Cyngor Bwrdeistref Burnley Cyngor Bury Cyngor Dinas Caer- grawnt Cyngor Dinas Caer-gaint Cyngor Caerdydd	A, D ac S Carter Natalie Casey David Chapman Cyngor Bwrdeistref Cheltenham Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Caer a Chaer Cyngor Dosbarth Chichester Heddlu Cleveland Cyngor Conwy Cyngor Cernyw Cyngor Dartford K Davies Anthony Phillip Dean Cyngor Dosbarth De Derbyshire Heddlu Derbyshire Y Gymdeithas Gwerthu Uniongyrchol Billy Duffield Heddlu Durham Cyngor Sir Durham Menter Rheoli Canol Tref Eastbourne M Emmans Shaun Ewings Cyngor Bwrdeistref Fylde Christopher George Barry Gimp Grŵp Swyddogion Trwyddedu Sir Gaerloyw Heddlu Gwent Allan Hallsworth Cyngor Bwrdeistref Harrogate Peter Harvey-Rice Martyn Head John Heaton	Cyngor Sir Henffordd Heddlu Hertfordshire D Hobson Lena Holt John Hudson Mary Hughes Cyngor Dinas Hull Heddlu Glannau Humber Chris Hunt Mike Huntley Ideastreet Y Sefydliad Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Ipswich Cyngor Islington J R Holland Produce LLP David Jackson Keith Baker Design and Management Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea Cyngor Dinas Leeds Cyngor Dinas Caerlŷr Heddlu Sir Gaerlŷr Margaret Leppard Bwrdeistref Llundain Lewisham Grŵp Gwella Busnes Lincoln Cyngor Dinas Lerpwl Cymdeithas Llywodraeth Leol Dinas Llundain Cynghorau Llundain Alexandra Lort Phillips Gavyn Macer Cyngor Bwrdeistref Maidstone
--	---	---

Cymdeithas Awdurdodau
Manceinion Fwyaf Grŵp y
Rheolwyr Trwyddedau
Cyngor Dinas Manceinion
Heddlu Manceinion Fwyaf
Clwb pêl-droed
Manchester United
Mark Bowen Caricatures
Paul Marshall
Mark Mascall
Julian McDonnell
N McGerr
Stanley Melinek
Heddlu West Midlands
Cyngor Sir Mynwy
David Moore
I L Morrison
Cymdeithas Genedlaethol
Awdurdodau Marchnad
Prydain
Ffederasiwn Cenedlaethol
y Masnachwyr Marchnad
Cyngor Tref Newbury
Cyngor Bwrdeistref
Newcastle Under Lyme
Cyngor Dinas Newcastle
upon Tyne
Cymdeithas Masnachwyr
Stryd Newcastle upon
Tyne
Neville Nicholson
Robert Nixon
Cymdeithas Cynghorau
Gogledd-ddwyrain Lloegr
Cymdeithas Safonau
Masnach Gogledd-
ddwyrain Lloegr
Heddlu Northamptonshire
Heddlu Northumbria
Cyngor Dinas Nottingham
Heddlu Nottinghamshire
John Osborne
Cyngor Tref Croesoswallt
Cyngor Dinas Rhydychen

Cynghorau De Sir
Rydychen a Vale of White
Horse
Fforwm Busnes
Twristiaeth Ardal Padstow
Cyngor Tref Padstow
Anthony Parker
Rhona Parks
Pedlars.info
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref
Pendle
R Perzyna
Cyngor Dinas Plymouth
Awdurdod Lleol Poole
Charles Pratley
Aleksandar Rakic
Cyngor Bwrdeistref
Reading
Cymdeithas Richmond
James George Robertson
Carl Robertson
ROX - promoting Oxford
business
Undeb Rygbi Lloegr
Cyngor Bwrdeistref
Rushmoor
K,T ac L Schwersenz
Lorna Sharp
Grŵp Manwerthwyr Canol
Dinas Sheffield
Cyngor Dinas Sheffield
Robert Slater
Melanie Smallman
Cyngor Dinas
Southampton
Cyngor Southwark
Cyngor Dinas a Dosbarth
St Albans
Cyngor St Helens
Heddlu Staffordshire
Cyngor Bwrdeistref
Stockton-on-Tees
Cyngor Dinas Sunderland

Heddlu Surrey
Pwyllgor Gwasanaethau
Marchnadoedd, Tai a
Chymunedau Swadlincote
Cyngor Bwrdeistref
Swindon
T J Tatler
Awdurdodau Lleol Tees
Valley
Pauline Terry
Jackie Terry
Cyngor Bwrdeistref Test
Valley
Heddlu Thames Valley
Cymdeithas y Papurau
Newydd
Cyngor Torbay
Y Sefydliad Safonau
Masnach
Gwasanaeth Gwarchod y
Cyhoedd, Cyngor Trafford
Joe Turner
Heddlu De Cymru
Spencer Watkins
S Watson
C Webber
Cyngor Bwrdeistref
Wellingborough
Valentine West
Cangen Masnachwyr
Stryd y West End
Cyngor Dinas
Westminster
Carnifal Weston
Cyngor Wiltshire
Cyngor Dinas Caerefrog
Heddlu Gogledd Sir Efrog
Heddlu De Sir Efrog
Heddlu Gorllewin Sir Efrog

© Hawlfraint y Goron 2014

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logoau) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence, ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges ebost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael oddi ar www.gov.uk/bis

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon at:

Department for Business, Innovation and Skills
1 Victoria Street
London SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 5000

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, anfonwch neges ebost at enquiries@bis.gsi.gov.uk, neu ffoniwch 020 7215 5000.

BIS/14/776